BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD CERBYDAU NWYDDAU TRWM DROS DRO) 2009

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo gwaith yn cael ei wneud i osod wyneb newydd ar gerbytffyrdd Cefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng ngweithfeydd gwella Tan-yr-Unto yn Llanbedr Dyffryn Clwyd a Rhuthun yn Sir Ddinbych.

Daw'r gwaharddiad canlynol, y codir arwyddion priodol am ei hyd a'i led, i rym am 08:00 o'r gloch ar 1 Medi 2009 a bydd yn aros mewn grym tan 31 Hydref 2009 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol.

Effaith y Gorchymyn, a fydd yn para am 18 mis ar y mwyaf, fydd gwahardd pob cerbyd sy'n pwyso 7.5 tunnell neu fwy rhag mynd yn ei flaen ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr A525 yn Rhuthun yn Sir Ddinbych i ganolbwynt y gyffordd wrth y gylchfan rhwng y gefnffordd a ffordd yr A5119 ger Gwernymynydd yn Sir y Fflint. Bydd cerbydau PSV sy'n pwyso 7.5 tunnell neu fwy a cherbydau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys yn cael eu hesemptio rhag y gwaharddiad.

Y llwybr amgen i draffig sy'n mynd tua'r gorllewin ac sy'n pwyso 7.5 tunnell neu fwy fydd mynd ymlaen ar hyd ffordd yr A541 tua'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r gefnffordd hyd at ei chyffordd â ffordd yr A543. Ewch yn eich blaen ar hyd ffordd yr A543 i'w chyffordd â ffordd yr A525 yn Ninbych ac yna mynd ymlaen ar hyd yr A525 i Ruthun. Y ffordd amgen i gerbydau sy'n mynd tua'r dwyrain ac sy'n pwyso 7.5 tunnell neu fwy fydd i'r gwrthwyneb.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://new.wales.gov.uk/legislation/subordinate/draftlegislation/dfrtlocalstat/temptraffic/?lang=cy

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN ODDI WRTH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, TRAFNIDIAETH AC ADFYWIAD STRATEGOL, Y GANGEN ORCHMYNION, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (LLANBEDR-DYFFRYN-CLWYD AND RUTHIN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF HEAVY GOODS VEHICLES) ORDER 2009

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to safeguard the road user and workforce whilst carriageway-resurfacing works are carried out on the A494 Dolgellau – South of Birkenhead Trunk Road (hereinafter referred to as "the trunk road") at the Tan-yr-Unto Improvement works at Llanbedr-Dyffryn-Clwyd and Ruthin in the County of Denbighshire.

The following prohibition, the extent of which will be sign-posted accordingly, will come into force at 08:00 hours on 1 September 2009 and will remain in force until 31 October 2009 or until temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order, which will have a maximum duration of 18 months, will be to prohibit all vehicles of or exceeding 7.5 tonnes in weight from proceeding in the length of the trunk road which extends from the centrepoint of its' junction with the A525 road in Ruthin in the county of Denbighshire to the centrepoint of the roundabout junction between the trunk road and the A5119 road near Gwernymynydd in the County of Flintshire. PSV vehicles of or exceeding 7.5 tonnes in weight and vehicles used by the emergency services will be exempted from the prohibition.

The alternative route for westbound traffic of or exceeding 7.5 tonnes in weight will be to proceed along the A541 road in a north-westerly direction from its' junction with the trunk road to its junction with the A543 road. Proceed along the A543 road to its' junction with the A525 road at Denbigh and then proceed along the A525 to Ruthin. The alternative route for eastbound vehicles of or exceeding 7.5 tonnes in weight will be vice versa.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's website at http://new.wales.gov.uk/legislation/subordinate/localstat/temptraff1/?lang=en

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, TRANSPORT AND STRATEGIC REGENERATION, ORDERS BRANCH, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.